**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (LLANDOVERY ROAD, LLANWRTYD, POWYS) (GWAHARDD AROS) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd aros yn y gilfan ar ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A483 a elwir yn Llandovery Road sy'n ymestyn o bwynt 151 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ymyl heb ei mabwysiadu a elwir hefyd yn Llandovery Road am bellter o 57 o fetrau yn Llanwrtyd, Powys. Gwaherddir aros rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod. Bydd esemptiadau, gan gynnwys un ar gyfer deiliaid bathodyn person anabl.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 21 Gorffennaf 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn Swyddfa Bost Llanwrtyd, Beulah Road Llanwrtyd, LD5 4RF. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1536193.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1536193, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod erbyn 11 Awst 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu ac, os bydd ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**THE A483 TRUNK ROAD (LLANDOVERY ROAD, LLANWRTYD WELLS, POWYS) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to prohibit waiting in the lay-by on the south-eastern side of the A483 trunk road known as Llandovery Road that extends from a point 151 metres north-east of the centre-point of its junction with the unadopted side road also known as Llandovery Road for a distance of 57 metres at Llanwrtyd Wells, Powys. Waiting will be prohibited between 20:00 hours and 06:00 hours on any day. There will be exemptions, including one for disabled person's badge holders.

During a period of 21 days from 21 July 2022, a copy of the proposed Order, plan and the Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, at Llanwrtyd Wells Post Office, Beulah Road, Llanwrtyd Wells, LD5 4RF. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge by writing to the Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1536193.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1536193, must be sent by e-mail to Transportordersbranch@gov.wales or in writing to the address below by 11 August 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence. The Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a public inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu eu cael mewn print bras, yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice, the Order, plan and Statement of Reasons can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained in larger print, free of charge, by writing to Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government